

# Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Mawrth 13eg 2018 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Gwynedd Jones (Cadeirydd), Geraint Jones, Geraint Davies, Gwynfryn Williams, Arwel Davies, Jean Roberts, Euros Puw a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rhys Richards a'r Cyng. Elwyn Edwards. Anfonwyd cofion at Rhys Richards a oedd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar.

## **i) Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.**

### **ii) Datgan Buddiant.**

Nodwyd buddiant y cynghorwyr gyda'r ceisiadau ariannol perthnasol.

### **iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

#### **a) Lloches bws Parc.**

Adroddodd y clerc fod Technegydd Cludiant Cyngor Gwynedd wedi cyfarfod gyda'r cynghorwyr i'w cynghori ynglŷn â dewis safle priodol yn y pentref ar gyfer y lloches. Clustnodwyd dau safle posib a chytunwyd i ofyn am farn y trigolion lleol cyn i'r swyddog wneud ymholiadau gyda'r adrannau perthnasol. Trafodwyd hefyd y posibilrwydd i'r plant ddefnyddio cyntedd y Neuadd fel lloches. Yn ystod ei ymweliad archwiliodd y swyddog yr hen loches bws ar gyrion y pentref ac nid oedd yn bryderus am ei gyflwr presennol. Cytunodd i wneud ymholiadau pellach am ddeunydd y lloches ar gyfer cofnodion y Cyngor.

#### **b) Diffibriliwr i bentref Parc.**

Yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod ym mis Chwefror cafwyd cadarnhad fod £1247.96 wedi cael ei drosglwyddo i gyfri'r Cyngor a chyflwynwyd £150 ychwanegol i'r clerc dalu i mewn i'r banc. Cytunwyd i dalu'r anfonebau ar gyfer archebu'r offer a'r anfoneb am y gost o osod yr offer pan ddaw i law. Roedd y clerc wedi cael cadarnhad y byddai'n bosib ychwanegu'r offer i bolisi yswiriant y Cyngor.

#### **c) Dwr yn gorlifo i'r ffordd ger Frongain/Bryn Tirion, Maesywaen.**

Cafwyd cadarnhad fod yr Arolygwr Priffyrdd wedi ymweld â'r safle ac wedi gwneud trefniadau i ddatrys y broblem.

## **iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

### **a) Un Llais Cymru**

i) Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol - yn dilyn yr ohebiaeth ym mis Chwefror derbyniwyd taflenni gwybodaeth a chanllawiau i baratoi ar gyfer y rheoliadau newydd a oedd yn dod i rym ar y 25/05/18. Cytunodd y clerc i gael cyngor ar y camau priodol i sicrhau y byddai popeth mewn lle.

### **b) Cadwch Cymru'n Daclus**

i) Derbyniwyd gwybodaeth am eu cynllun diweddaraf a'r grantiau a oedd ar gael i gefnogi grwpiau gwirfoddol. Cytunwyd i ddsbarthu'r wybodaeth.

### **c) Panel Annibynnol Cymru**

Cafwyd cadarnhad fod y Panel wedi mabwysiadu'r 'Adroddiad Blynyddol ar Gydabyddiaeth Ariannol 2018/19'. Cytunwyd i fabwysiadu'r argymhellion yn swyddogol yn y cyfarfod blynyddol ym mis Mai.

## **v) Materion Ariannol.**

### **i) Adroddiad Ariannol - monitro derbyniadau a thaliadau.**

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Chwefror a chafwyd yn gywir.

### **ii) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-**

Cyflog y clerc (Ionawr i ddiwedd Mawrth), CTHEM (TWE), Neuadd Maesywaen (Llogi), Zoll Medical (Diffib Parc), PAWLE (Diffib Parc)

iii) Yn dilyn trafodaeth cytunwyd bod y swm o arian a gadwir wrth gefn yn isel a phenderfynwyd cadw swm ychwanegol wrth gefn ar gyfer unrhyw wariant annisgwyl yn y flwyddyn ariannol nesaf:-  
Eisteddfod Talybont £150, Cylch Meithrin/ Ti a Fi Maesywaen £150, Neuadd Y Parc £150 (Euros Puw yn datgan buddiant), Ysgol Bro Tryweryn £150, Ysgol y Berwyn £25, Sioe Ardal Maesywaen £50 (Huw Charles yn datgan buddiant), Urdd Gobaith Cymru Cylch Penllyn £25, CFFI Meirionnydd £100, Ambiwylans Awyr Cymru, Hosbis Tŷ'r Eos £25, Cantref £25 (Gwynedd Jones yn datgan buddiant), Sefydliad Aren Cymru £25, RABI Meirionnydd £30

#### 14) Anfoneb Partneriaeth Penllyn.

Gan nad oedd y cyfrifon ariannol wedi dod i law, cytunwyd i beidio talu'r anfoneb a oedd yn ddyledus.

#### 15) Cais ariannol gan bapur newydd Y Cyfnod/Corwen Times.

Trafodwyd y cais am gymorth ariannol a chytunwyd fod y papur yn ased amrhysiadwy i'r ardal ac y byddai'n syniad trafod y cais gyda gweddill o'r cynghorau cymuned yn yr ardal. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â hwy i drefnu cyfarfod i'w drafod.

#### **vi) Unrhyw Fater Arall**

##### a) Cytunwyd i basio'r gŵyn ganlynol ymlaen i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.

i) Dwr yn gorlifo i'r ffordd rhwng Ty'n Pant a Pentre, Llidiardau.

##### b) Toriadau i gyllideb Clybiau Ieuentid a CFFI y sir.

Mynegwyd siom y Cyngor i benderfyniad Cyngor Gwynedd i dorri cyllid y Mudiadau Ieuentid a CFFI. Teimlai'r cynghorwyr fod y mudiadau yn cynnig profiadau amhrisiadwy i ieuentid y sir ac y byddai'n anodd iawn iddynt gynnig yr un gwasanaeth heb y cyllid angenrheidiol.